



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau i leoli plant gan awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol a phersonau sy'n cadw cartrefi preifat i blant yng Nghymru.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

"Yr ardal y mae'r plentyn yn preswyllo ynddi fel arfer" yw'r term diffiniedig yn rheoliad 2 sy'n cyfateb i ("the area in which the child is ordinarily resident"). Fodd bynnag, ar sawl achlysur pan ddefnyddir y term ar ôl hynny, mae'r gair "ynddi" yn dilyn "fel arfer". Byddai'r ddau eiriad yn gywir, ond dylid defnyddio'r term diffiniedig yn gywir neu'i newid. Dylid defnyddio'r term cywir yn rheoliad 5(6)(b) hefyd, lle y mae fersiwn arall yn ymddangos, yn ogystal. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn y diffiniad o "ymarferydd cyffredinol", defnyddiwyd y gair 'Cenedlaethol' i gyfateb i 'National' yng nghyd-destun y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. 'Gwladol' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio fel rheol i gyfateb i 'National' yn y cyd-destun hwn, a dylid ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cysondeb â deddfwriaeth arall. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff (b) y diffiniad o "ymarferydd cyffredinol" yn rheoliad 2 (ac yn y troednodyn

cyfatebol), mae blwyddyn Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) wedi'i gofnodi yn anghywir fel 1977 yn y testun Cymraeg a Saesneg. 1997 yw'r dyddiad cywir. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Yn rheoliad 6(5), mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "where applicable"; nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ar ddiwedd paragraff rhagarweiniol rheoliad 10(3), mae'r ymadrodd "treated as confidential" wedi'i fynegi yn Gymraeg fel "ei drin fel petai'n gyfrinachol" [treated as if it were confidential] sy'n awgrymu nad yw'n gyfrinachol mewn gwirionedd, ond y dylid ei drin felly p'un bynnag. Byddai "ei drin yn gyfrinachol" yn adlewyrchu'r ystyr yn well. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ym mharagraff 2 o destun Cymraeg Atodlen 4, mae'r gair "y" [the] ar goll cyn y gair "plentyn". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

I osgoi ansicrwydd, dylai'r geiriau "of the Act" ddilyn y cyfeiriad at adran 20(11) ym mharagraff 8 o Atodlen 4. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am nifer o bwyntiau'n ymwneud â sillafu, fformadu a throednodiadau sy'n addas i'w cywiro wrth eu cyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

30 Ionawr 2007